# Cydlynydd Prosiect – Prosiect ‘Lle i Anadlu’ yng Nghymru

Y Gymdeithas MS

Caerdydd, Caerdydd (Hybrid)

£27,595 - £31,620 FTE (Cyflog Gwirioneddol: £22,076 - £25,296) y flwyddyn a buddion gwych

Contract: Contract cyfnod penodol hyd at fis Mawrth 2025, Rhan-amser

Sut i wneud cais

Arbed

## Swydd-ddisgrifiad

**Cydlynydd Prosiect (Prosiect ‘Lle i Anadlu’ yng Nghymru)**
**Contract:** Contract cyfnod penodol hyd at fis Mawrth 2025
**Oriau:** Rhan-amser - 28 awr yr wythnos

**Lleoliad:** Swyddfa yng Nghaerdydd neu o gartref yng Nghymru

**Cyflog:** £22,076 - £25,296 y flwyddyn (FTE £27,595 - £31,620) a buddion gwych

**Band Cyflog:** Band D1

**Ynglŷn â ni**

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl sy’n byw gyda MS wrth wraidd popeth a wnawn. A’r ymrwymiad hwn sy’n ein huno ar draws y DU.

Mae ein strategaeth yn seiliedig ar yr hyn y mae pobl sydd wedi’u heffeithio gan MS wedi dweud wrthym sy’n bwysig iddyn nhw. Mae’n rhoi ffocws clir a phendant i ni.

Mae ein gwaith yn seiliedig ar obeithion a dyheadau ein cymuned MS. Gyda'n gilydd, rydyn ni’n ymgyrchu ar bob lefel, yn ariannu ymchwil sy'n torri tir newydd ac yn cynnig cymorth a gwybodaeth sydd wedi ennill gwobrau.

Ein pobl yw ein hased fwyaf a’r elfen sy’n allweddol i’n llwyddiant. Rydyn ni’n cynnig amgylchedd gwaith bywiog, blaengar lle byddwch yn gallu gwneud gwahaniaeth.

**Ynglŷn â’r swydd hon**

Bydd ein Cydlynydd Prosiect yn galluogi gofalwyr di-dâl sy’n cefnogi pobl â MS i gael seibiannau byr i wella eu hiechyd a’u lles.

Bydd y prosiect yn cael ei gyflwyno ledled Cymru ac mae'n cysylltu ag ôl troed ein grwpiau lleol. Bydd ein cydlynydd prosiect yn datblygu ac yn hwyluso cymysgedd o seibiannau byr, gweithgareddau a gwybodaeth gan gymheiriaid/cefnogi caffis rhithwir.

**Bydd cyfrifoldebau ein Cydlynydd Prosiect yn cynnwys:**

- Cynllunio gwaith i sicrhau ein bod yn cyflawni canlyniadau'r prosiect
- Canolbwyntio'r gwaith i gyflawni cynllun busnes y tîm a chyfrannu at gyflawni ein nodau a'n blaenoriaethau strategol
- Gweithio gyda phartneriaid a sefydliadau i gyflwyno gweithgareddau/seibiannau byr i ofalwyr di-dâl sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda MS a'u teuluoedd
- Recriwtio, hyfforddi a chynnig cefnogaeth ar gyfer y Grŵp Cynghori ar Wirfoddoli
- Hyrwyddo gweithgareddau codi ymwybyddiaeth i ofalwyr di-dâl yng Nghymru sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda MS
- Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol ar draws yr adran, y gyfarwyddiaeth a'r sefydliad cyfan
- Gweithio gyda chydweithwyr mewnol yn enwedig Swyddogion Datblygu Cymunedol a chydlynwyr grwpiau lleol i hyrwyddo'r prosiect a hyrwyddo cyfranogiad.
- Gweithio gyda'n Swyddog y Wasg a Chyfathrebu i dargedu'r broses o hyrwyddo'r prosiect, yn enwedig ar gyfer gofalwyr di-dâl o grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd a grwpiau sydd ar y cyrion yng Nghymru

**Rydyn ni'n chwilio am ymgeisydd llwyddiannus sydd â:**

• Phrofiad o reoli prosiectau

• Profiad o ddatblygu rhaglen o weithgareddau lles

• Profiad o gefnogi gwirfoddolwyr

Bydd y rôl yn gofyn am wiriad lefel safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Mwy am ein buddion i weithwyr:**

**Mae gennym amrywiaeth eang o fuddion i weithwyr gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):**

**Annog cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith**
- 38 o ddiwrnodau o wyliau blynyddol â thâl (gan gynnwys gwyliau banc), pro-rata ar gyfer rhan-amser
- Yr hawl am fwy o wyliau blynyddol, yn seiliedig ar hyd cyflogaeth
- Opsiynau gweithio'n glyfar (gyda chyfle i weithio o bell a dod o hyd i batrwm gweithio'n glyfar sy'n addas i chi a ni)
- Opsiynau gweithio'n hyblyg

**Gofalu amdanoch chi a'ch teulu**
- Tâl salwch hael
- Yr hawl am fwy o dâl salwch, yn seiliedig ar hyd cyflogaeth
- Cyfle i brynu a gwerthu gwyliau blynyddol ym mhob blwyddyn galendr
- Mynediad rhithwir am ddim at Feddyg Teulu 24 awr y dydd/7 diwrnod yr wythnos sy'n rhoi cyngor diderfyn, tawelwch meddwl, a lle bo'n briodol, diagnosis
- Lefel uwch o absenoldeb i rieni newydd
- Mynediad am ddim i wasanaeth llinell gymorth cyfrinachol 24 awr y dydd/7 diwrnod yr wythnos i chi a'ch teulu gydag ystod arbenigol o gymorth a gwybodaeth
- Opsiynau absenoldeb arbennig (fel hyd at 5 diwrnod o absenoldeb â thâl ar gyfer argyfyngau domestig neu bersonol bob blwyddyn)
- 10 diwrnod o wyliau anabledd â thâl bob blwyddyn, pro-rata ar gyfer rhan-amser

- 10 diwrnod o wyliau â thâl i ofalwyr bob blwyddyn, pro-rata ar gyfer rhan-amser
- Budd-daliadau newydd sy'n ystyriol o deuluoedd, gan gynnwys gwyliau â thâl:
- 1. Mewn achos o gam-esgor neu farw-enedigaeth
- 2. Cefnogi triniaethau ffrwythlondeb
- 3. Ar gyfer apwyntiadau cyn geni i'r ddau riant
- Cynllun seiclo i'r gwaith
- Cynllun marw yn y swydd
- Cynlluniau iechyd arian parod i helpu i wrthbwyso costau gofal iechyd i chi a'ch teulu

**Meddwl am eich materion ariannol**

- Cynllun pensiwn aberthu cyflog uwch
- Benthyciad tocyn tymor rhatach a benthyciadau brys di-log
- Cyfrannu tra’n ennill i gefnogi elusennau eraill o'ch dewis cyn treth
- Porth i weithwyr newydd gan gynnwys talebau cynilo ffordd o fyw a lles personol

**Cyfoethogi eich bywyd yn y gwaith**

- Cynlluniau datblygu personol gydag amrywiaeth eang o gyrsiau hyfforddi a chyfleoedd i ddod o hyd i opsiynau hyfforddi ychwanegol gyda'ch rheolwr llinell
- Cyfleoedd prentisiaeth mewnol blynyddol
- Swyddfeydd newydd, modern sy'n croesawu cydweithio wyneb yn wyneb ac o bell
- Cyfleoedd amrywiol i ddylanwadu ar sut rydyn ni’n gweithredu'n fewnol (gan gynnwys arolygon a grwpiau ffocws a phwyllgorau)
- Grwpiau rhwydweithio mewnol gweithgar a chefnogol i weithwyr ar gyfer cydweithio a chefnogaeth gan gymheiriaid
- 2 ddiwrnod o wyliau â thâl bob flwyddyn i wirfoddoli ar gyfer gweithgareddau’r Gymdeithas MS yn ystod oriau gwaith arferol (fel digwyddiadau codi arian neu ymgyrchu yn y gymuned leol)
- 2 ddiwrnod o wyliau â thâl bob flwyddyn i wirfoddoli gydag elusennau eraill yn ystod oriau gwaith arferol

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 9am ddydd Llun 28ain Awst 2023**

**GWASGWCH Y BOTWM 'SUT I WNEUD CAIS' AM FWY O WYBODAETH.**

**Cyfle Cyfartal**
Rydyn ni’n croesawu’n arbennig ceisiadau gan bobl ag anableddau a/neu o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.

Byddem yn ddiolchgar petaech yn lawrlwytho a chwblhau’r ffurflen monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth a’i chyflwyno gyda’ch cais.

**Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd**
Rydyn ni’n Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ac rydyn ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Gallwch ofyn am addasiadau rhesymol fel rhan o'n prosesau recriwtio a chynefino i newydd-ddyfodiaid.

Os oes angen unrhyw help neu addasiadau arnoch i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â ni. Gallwch hefyd ofyn i ddeunyddiau'r cais gael eu hanfon atoch mewn fformat gwahanol. Er enghraifft, ar e-bost neu fformat Word mwy o faint.

**Diogelu**
Rydyn ni wedi ymrwymo i ddiogelu a hyrwyddo lles pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau a phawb rydyn ni'n dod i gysylltiad â nhw.

**Ac mae hynny beth bynnag fo'u:**

- Rhywedd
- Hil
- Anabledd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Crefydd neu gred
- Beichiogrwydd
- Ailbennu rhywedd

Rydyn ni'n cydnabod ein cyfrifoldeb penodol i sicrhau bod oedolion a phlant sy'n agored i niwed yn cael eu hamddiffyn.

Mae gennym fesurau ar waith i amddiffyn pawb y byddwn yn dod i gysylltiad â nhw rhag camdriniaeth a chamarfer o bob math.

**Eich hawl i weithio yn y DU**

Mae'n rhaid i chi gael yr hawl i weithio yn y DU er mwyn gweithio mewn swydd sydd â thâl gyda ni. Bydd angen i chi rannu dogfennau sy'n dangos eich bod yn gymwys i weithio yn y DU os byddwn yn cynnig cyflogaeth i chi.

Gallwch ddod o hyd i fisas a thrwyddedau'r DU sy'n rhoi'r hawl i chi weithio yn y DU ar wefan Llywodraeth y DU. Ar hyn o bryd nid oes gennym gytundeb Trwydded Noddi gyda'r Swyddfa Gartref ac ni allwn eich cefnogi gyda'ch ceisiadau fisa.

Dim asiantaethau os gwelwch yn dda.